scope cymru

Ynghylch parlys yr ymennydd.
Dros gydraddoldeb i bobl anabl.
About cerebral palsy.
For disabled people achieving equality.

Pleidlais pwy ydych chi'n ei golli?

Gwneud yn siŵr bod eich neges yn cyrraedd pobl anabl

Newid bach, gwahaniaethau mawr tudalen 3

Gan fod siawns y gallai etholiadau gael eu hennill neu golli ar lond llaw o bleidleisiau, gwnewch yn siŵr nad ydych yn colli allan ar 10.6 miliwn o bobl anabl ym Mhrydain. Yn yr adran hon mae ffeithiau a ffigurau ar anabledd a cewch wybod sut y gall rhai newidiadau bach wneud gwahaniaeth mawr.

Siarad lleol, cyfarthrebu hygyrch tudalen 10

Annog dinasyddiaeth weithgar ac estyn allan i bobl anabl ym Mhrydain trwy ein gwefan, llenyddiaeth ymgyrchu, a thrwy gynnal cyfarfodydd Plaid a digwyddiadau hygyrch yn eich etholaeth. Yn yr adran hon, darllenwch ein cynghorion ac awgrymiadau ar sut i wneud hyn ddigwydd yn eich ardal chi.

Safbwyntiau lleol, barn hygyrch tudalen 21

Gafaelwch ar dalentau'r gymuned gyfan a chynnwys pobl anabl yn eich ymgyrch, dim ots beth yw'r mater. Hefyd yn yr adran hon, darganfyddwch templed ymgyrchu y gellir eu defnyddio i wneud yn siŵr bod eich gorsaf bleidleisio yn hygyrch i bobl anabl.

Hoffech chi wybod mwy? tudalen 28

Mae'r adran hon yn rhoi manylion cyswllt defnyddiol i chi os ydych yn dymuno i ddarganfod mwy am anabledd, amhariadau penodol neu sut i ddarparu gwybodaeth mewn fformatau amgen.

Newid bach, gwahaniaethau mawr

Mae pobl anabl yn eich etholaeth yn ffurfio cyfran sylweddol a phwysig o'r etholaeth.

Gan gwrdd â phobl anabl yn eich ardal ac gan gymryd yr amser i ddarganfod beth sydd wir yn bwysig iddynt, gallwch wneud yn siwr bod llais pobl anabl yn cael ei adlewyrchu ym mhob agwedd o'ch ymgyrchu.

Mae'r llyfryn hwn wedi ei gynllunio i dynnu sylw at yr hyn y gallwch chi ei wneud yn lleol i sicrhau fod pobl anabl yn eich cymuned yn cael yr un mynediad at eich neges â phobl nad ydynt yn anabl.

Gall Etholiadau gael eu hennill neu cholli ar lond llaw o bleidleisiau yn unig felly gwnewch yn siŵr nad ydych yn colli allan ar gefnogaeth o bleidleiswyr anabl!

Anabledd – y ffeithiau

- Ar hyn o bryd mae 10.6 miliwn o bobl anabl ym Mhrydain.
- Ar gyfartaledd mae etholaeth gyda tua 15,000 o bleidleiswyr anabl.
- Mae un o bob chwech o bobl yn y DU yn anabl.
- Yn yr Etholiad Cyffredinol olaf roedd 68% o orsafoedd pleidleisio gyda un neu fwy o rwystrau mynediad difrifol.
- Dim ond 6% o bobl anabl sydd yn defnyddio cadair olwyn.
- Mae 13% o gynghorwyr yn nodi fel pobl anabl.
- O'r 10.6 miliwn o bobl anabl ym Mhrydain, dim ond tair miliwn ar hyn o bryd sydd yn hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd.
- Mae incwm pobl anabl, ar gyfartaledd, yn llai na hanner incwm y bobl nad ydynt yn anabl.
- Mae 29% o deuluoedd sydd â phlentyn anabl yn byw mewn tlodi.
- Mae un o bob pedwar o bobl anabl wedi profi achosion o droseddau casineb neu aflonyddu.
- Ar gyfartaledd mae'r gost flynyddol o fagu plentyn anabl yn dair gwaith yn fwy nag ydyw i blant nad ydynt yn anabl.
- Mae 60% o bobl anabl yn methu cael mynediad at weithgareddau yn y gymuned.



Oeddech chi'n gwybod?

Mae'n myth gyffredin fod pobl anabl yn poeni'n unig am anabledd. Mae pobl anabl, fel pob pleidleiswyr eraill yn eich etholaeth, yn cael eu poeni gan ystod eang o faterion.

Troseddau – mae 53% o bobl anabl yn ofn dioddef trosedd.

Tai – mae pob etholaeth gyda, ar gyfartaledd, dros 1,000 o ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, ohonynt dim ond 20% sy'n fodlon â'u llety presennol.

Cyflogaeth – Mae 60% o oedolion anabl eisiau gweithio, ond dim ond 40% ar hyn o bryd yn gweithio.

Trafnidiaeth – tra bod 90% o fysiau yn Llundain yn hygyrch i bobl anabl, mae'r cyfartaledd cenedlaethol dim ond yn 30%.

Newid geiriau, newid agweddau

Mae'r iaith yr ydym yn eu ddefnyddio wrth siarad am anabledd yn newid dros amser ac nid oes unrhyw reolau gosod am yr hyn y dylid ei ddweud ar hyn ni ddylid dweud. Mae'r blwch isod yn amlinellu'r arferion gorau cyfredol.

Defnyddiwch	Osgoi
Pobl anabl	Yr anabl Pobl ag anableddau Yr rhai dan anfantais
Person nad ydynt yn anabl	Arferol Gallu'n gorfforol Iach
Amhariadau	Anableddau
Â pharlys yr ymennydd **Person â pharlys yr ymennydd**	Dioddef o barlys yr ymennydd 'Spastic'
Person ag anawsterau dysgu / anableddau	Dan anfantais feddyliol 'Retarded'
Person dall **Person rhannol ddall** **Person ac amhariad ar ei golwg**	Y deillion
Person byddar **Y gymuned fyddar** **Amhariad ar eu clyw**	Y byddar Byddar a mud
Defnyddiwr cadair olwyn	Wedi'w cyfyngu i gadair olwyn
Toiledau hygyrch	Toiledau i'r anabl
Parcio hygyrch **Parcio i ddefnyddwyr bathodyn glas**	Parcio i'r anabl
Gweithiwr cefnogi **Cynorthwy-ydd Personol** **Galluogwr**	Gofalwr(oni bai yn aelod o'r teulu / di-dâl)

Y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd

Pan fyddwch yn cyfarfod â phobl anabl lleol ac yn ymgyrchu yn eich etholaeth mae'n ddefnyddiol i fod yn ymwybodol o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DGSA), y mae'n gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus a hawliau pobl anabl.

Mae'r DGSA yn anelu at atal gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl ac yn darparu amddiffyniad mewn perthynas â chyflogaeth, mynediad at nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau, addysg, prynu neu rhentu eiddo a thrafnidiaeth. Daeth y Ddeddf i gyfraith yn 1995 ac fe'i diwygiwyd yn 2005.

Mae'r DGSA yn ei gwneud yn glir nad yw anabledd yr un peth â meysydd cydraddoldeb eraill. Er mwyn sicrhau nad yw person anabl yn cael ei anffafrio mae'n golygu na fod eu trin yr un ffordd a pherson nad ydynt yn anabl yn ddigonol; yn aml gall fod darparu triniaeth fwy ffafriol fod o fudd er mwyn sicrhau maes chwarae tecach.

Mae'r DGSA 2005 yn rhoi dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl anabl. Fel rhan o'r ddyletswydd hon, mae cyrff cyhoeddus yn cael ei gorfodi i ystyried anghenion pobl anabl wrth lunio eu polisïau, arferion a gweithdrefnau, mae'n rhaid iddynt hefyd weithio tuag at:

- dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu sy'n gysylltiedig â anabledd
- hyrwyddo cyfle cyfartal ac agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl
- annog pobl anabl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus

Mae llawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys cynghorau lleol, hefyd yn amodol ar ddyletswyddau penodol, fel gofyniad i gynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd yn esbonio sut y maent yn bwriadu i fodloni'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb. Rhaid iddynt hefyd gael tystiolaeth o fod pobl anabl wedi cymryd rhan wrth gynllunio eu polisïau.

Yn lleol efallai y byddwch yn dod o hyd, er gwaethaf hawliau pobl anabl o dan y DGSA, anwybodaeth, diffyg meddwl a rhagfarn yn dal i arwain at gwahaniaethu sy'n cael effaith andwyol ar fywydau pobl anabl. Hefyd, nid yw'n anghyffredin i'r rheiny sydd â dyletswyddau o dan y DGSA i wneud dim ond y lleiafswm sy'n ofynnol ohonynt.

Mae'r Mesur Cydraddoldeb ar hyn o bryd yn cael ei basio drwy'r Senedd. Ei nod yw symleiddio'r ddeddfwriaeth cydraddoldeb bresennol yn un Ddeddf a bydd yn disodli'r DGSA. Os bydd y Mesur yn mynd i gyfraith, yna bydd gwahaniaethu ar sail hil, crefydd neu gred, rhyw, rhywioldeb, oedran neu anabledd i gyd yn cael eu cynnwys gan un darn unigol o ddeddfwriaeth.

Siarad lleol, cyfarthrebu hygyrch

Llythyrau a thaflenni

Pan yn argraffu llythyrau neu lenyddiaeth ymgyrchu yna mae rhai rheolau synnwyr cyffredin syml y gellir ei dilyn i sicrhau y bydd eich neges yn cyrraedd cynulleidfa ehangach.

Dyma ein deg awgrym gorau ar gyfer sicrhau bod eich llythyrau a thaflenni yn hygyrch i bobl anabl. Os nad ydynt yn gwybod eich polisïau, yna pam ddylsent bleidleisio ar eich rhan?

1. Ydych chi'n defnyddio ffont sy'n glir ac yn hawdd i'w ddarllen, megis Arial, a bob amser yn defnyddio math sydd o leiaf 12 pwynt.

2. Ydych chi'n cynnwys delweddau cadarnhaol o bobl anabl yn eich deunydd ymgyrchu.

3. Ydych chi'n cynnig i ddarparu gwybodaeth mewn fformatau eraill fel rhai sydd yn hawdd ei darllen, print bras, tâp sain neu Braille.

4. Peidiwch â gosod testun ar draws ffotograffau neu ddelweddau gan fod hyn yn ei gwneud yn anodd i bobl ddarllen. Mae hefyd yn syniad da i osgoi gosod testun allan yn fertigol neu ar wahanol onglau.

5. Defnyddiwch Saesneg plaen ac osgoi defnyddio acronymau a jargon.

6. Peidiwch â defnyddio llythrennau italig, blociau mawr o lythyrau cyfalaf neu tanlinellu testun.

7. Peidiwch â argraffu ar bapur sglein fel y gall y llacharedd ei gwneud yn anodd i rai pobl i'w ddarllen. Mae'n well i ddefnyddio papur matt sy'n ddigon trwchus i sicrhau nad yw'r argraffu'n dangos trwy'r ochr arall.

8. Gwnewch ddefnydd o destun du ar gefndir gwyn lle bo hynny'n bosibl gan fod hyn yn gweithio orau o ran eglurder. Os bydd angen i chi ddefnyddio testun neu gefndir lliw mae angen defnyddio cyferbyniad addas bob amser.

9. Peidiwch â rhannu geiriau dros ddwy linell. Mae hefyd yn helpu i alinio'r testun ar y chwith.

10. Peidiwch â dibynnu ar ddelweddau neu diagramau i gyfleu gwybodaeth. Mae angen cynnwys testun esboniadol yn ogystal a hyn bob amser.

Gwneud y gorau o'ch gwefan

Bydd gwefan lleol eich Plaid yn fan cyntaf y byddai nifer o bobl anabl yn galw arni i ddarganfod mwy am yr hyn y mae'r Blaid yn ei wneud yn lleol a sut y gallant gymryd rhan.

Nid oes gan bawb fynediad i'r rhyngrwyd gartref, felly os ydych chi'n gofyn i bobl i ymweld â'ch gwefan mewn llythyrau neu daflenni efallai y byddwch eisiau ystyried rhoi cyhoeddusrwydd i le gall y rhyngrwyd gael ei ddefnyddio yn rhad ac am ddim yn lleol.

Beth am ddefnyddio'r rhestr wirio isod i wneud yn siwr bod eich gwefan yn hawdd i bobl anabl eu defnyddio?

- ☐ A yw'n hawdd i bobl i newid y gosodiadau lliw heb ei niweidio gosodiad y wefan?
- ☐ Gall defnyddwyr newid maint y testun yn hawdd er mwyn gwneud yn addas i'w anghenion?
- ☐ Ydy dyluniad y wefan mor glir a syml a sydd bosibl?
- ☐ Ydi hi'n hawdd teithio trwy dudalenau'r wefan?
- ☐ Ydych chi wedi cynnig ffurfiau arall ar gyfer unrhyw ffeiliau PDF, megis testun cyfoethog neu ffurf geiriau?
- ☐ Yw'r testun sy'n cael ei danlinellu yn gysylltiadau gwefan gweithredol yn unig?
- ☐ Yw'r cysylltiadau gwefan yn agor yn yr un ffenestr (nid fel 'pop-up') oni bai bod y defnyddiwr yn rhybuddio y bydd hyn yn digwydd?
- ☐ Yw'r holl destun ar gefndir plaen a lliw cadarn?
- ☐ Ydych chi wedi sicrhau nad yw'r safle gyda unrhyw wrthrychau sy'n fflachio neu'n crynu?

Lleoliad, lleoliad, lleoliad

Pan fydd cyllidebau yn dynn, neu hyd yn oed pan nad ydynt yn bodoli, nid yw'n hawdd bob amser i gael dewis lleoliad i chi ddefnyddio ar gyfer derbyniadau a chyfarfodydd y Blaid.

Pam na wnewch chi lungopi o'r rhestr wirio isod i'ch helpu i wneud y gorau o'ch man cyfarfod a sicrhau y gall pobl anabl gymryd rhan lawn yn eich digwyddiad? Mae lle i wneud nodiadau ar unrhyw broblemau posibl fel y gallwch eu trafod gyda phobl y lleoliad o flaen llaw.

Rhestr wirio i'r lleoliad

Ydych chi wedi nodi gofynion mynediad yr holl gyfranogwyr?

☐ Ydyw ☐ Nac ydyw

Nodiadau

A oes parcio digonol yn agos at y brif fynedfa a sydd wedi neu all gael eu ddynodi ar gyfer pobl anabl?

☐ Ydyw ☐ Nac ydyw

Nodiadau

A yw'r adeilad yn gwbl hygyrch drwy'r brif fynedfa?

☐ Ydyw ☐ Nac ydyw

Nodiadau

A oes mynediad lefel neu gyda ramp trwy gydol yr adeilad?

☐ Ydyw ☐ Nac ydyw

Nodiadau

A oes cyfleusterau toiled hygyrch?

☐ Ydyw ☐ Nac ydyw

Nodiadau

A oes byrddau a seddi sydd ar gael fel y gall pobl eistedd i lawr i gael lluniaeth?

☐ Ydyw ☐ Nac ydyw

Nodiadau

A yw'r ystafelloedd cyfarfod yn rhydd o risiau, a gyda seddau symudol?

☐ Ydyw ☐ Nac ydyw

Nodiadau

A yw'r ystafell ddigon mawr i ymgymhwso pawb yn gyfforddus?

☐ Ydyw ☐ Nac ydyw

Nodiadau

Os oes gris ydyw wedi'w rampio?

☐ Ydyw ☐ Nac ydyw

Nodiadau

A yw'r golau naturiol neu uwchben yn ddigon da?

☐ Ydyw ☐ Nac ydyw

Nodiadau

A oes dolen sain wedi'w osod?

☐ Ydyw ☐ Nac ydyw

Nodiadau

A yw'r canlynol ar gael?

Mygiau gyda Handlen mawr

☐ Ydyw
☐ Nac Ydyw

Ardal cerdded cŵn

☐ Ydyw
☐ Nac ydyw

Gwellt yfed

☐ Ydyw
☐ Nac ydyw

Powlenni i'r cŵn

☐ Ydyw
☐ Nac ydyw

Nodiadau

Cyfarfod pobl anabl

Mae cyfarfod gyda phobl anabl yn eich etholaeth yn ffordd wych i ddarganfod mwy am y pryderon sydd gan bobl anabl yn lleol. Gallwch hyd yn oed ddod o hyd i gefnogwyr newydd a gwirfoddolwyr.

Wrth gyfarfod pobl anabl nid oes unrhyw reolau wedi'w gosod. Fe welwch fod y rhan fwyaf o'r awgrymiadau canlynol yn synnwyr cyffredin ond dylent helpu chi deimlo'n fwy hyderus pan fyddwch yn cyfarfod unigolyn anabl am y tro cyntaf.

- Mae'n bwysig cofio fod y rhan fwyaf o amhariadau, fel epilepsi neu dyslecsia, ddim yn amlwg i chi pan fyddwch yn cwrdd â'r person y tro cyntaf.
- Weithiau byddai rhai pobl anabl angen cymorth ond mae pawb yn unigolyn felly mae'n well gofyn yn hytrach na cymryd yn ganiataol eu bod angen cymorth. Byddwch yn ymwybodol na fydd y cynnig o gymorth bob amser yn cael ei dderbyn. Os ydyw, yna mae angen gofyn i'r person bob amser sut y byddent yn hoffi i chi ddarparu cymorth gan y bydd hyn yn amrywio o berson i berson.
- Peidiwch â gwneud rhagdybiaethau am allu'r unigolyn i wneud pethau penodol.
- Peidiwch anghofio y gall rhai pobl anabl fod yng nghwmni gweithwyr cymorth a / neu cŵn cymorth.
- Os bydd person anabl â gweithiwr cymorth gyda nhw yna bydd angen i chi siarad yn uniongyrchol â'r unigolyn bob amser a nid gyda'i gweithiwr cefnogi neu gyfieithydd laith Arwyddion Prydain.

Pobl sy'n defnyddio cadair olwyn

- Wrth siarad â rhywun sy'n defnyddio cadair olwyn ceisiwch eistedd ar gadair os yn bosibl fel eich bod ill dau ar yr un lefel.
- Peidiwch â phwyso neu rhoi eich llaw ar gadair olwyn person; gan ei fod yn rhan o'u gofod personol.
- Peidiwch â rhagdybio nad oes gan ddefnyddiwr cadair olwyn ddefnydd o'u coesau. Weithiau byddai rhai pobl eisiau trosglwyddo i gadair arall. Os ydynt, mae angen gofyn bob amser os hoffent rhywfaint o gymorth ond peidiwch a symud eu cadair olwyn i ffwrdd oddi wrthynt.
- Pan fyddwch yn cyfarfod defnyddiwr cadair olwyn i ffwrdd o'i amgylchedd eu hunain fydd angen sicrhau fod y man cyfarfod yn gwbl hygyrch gyda chyfleusterau toiled hygyrch, mynediad gwastad, drysau a lifftiau eang bob amser.

Pobl ac amhariad lleferydd

- Os ydych yn ei chael hi'n anodd i ddeall beth mae rhywun wedi ei ddweud peidiwch a bod yn ofn gofyn iddynt ailadrodd.
- Mae angen bob amser i chi wneud cyswllt llygad a gwrando yn dawel tra bod y person siarad gyda chi.
- Peidiwch ac esgus eich bod yndeall pan nad ydych a pheidiwch â cheisio gorffen brawddegau person ar eu cyfer.
- Efallai y byddai'n ddefnyddiol i ddweud beth yr ydych wedi deall ac yna gofyn i'r person egluro unrhyw beth nad ydych wedi ei ddeall.

Pobl sydd ag amhariad ar eu golwg

- Mae angen dechrau pob amser drwy gyflwyno eich hun ac unrhyw un arall sy'n bresennol. Os ydych mewn grŵp, dylech geisio nodi lle mae pob person wedi ei leoli yn yr ystafell ac yna dweud enw'r person cyn siarad gyda nhw pob amser.
- Pan yn cynnig ysgwyd llaw dylech ddweud rhywbeth i ddangos eich bod yn dymuno gwneud hynny.
- Os ydych chi'n meddwl bod rhywun angen cymorth mae angen gofyn iddynt yn gyntaf ac yna darganfod sut y byddent yn hoffi i chi eu harwain.
- Nid yw cŵn tywys a chŵn cymorth yn anifeiliaid anwes, y maent yn gŵn gweithio. Ni ddylech roi sylw i gi tywys person sydd ag amhariad ar eu golwg os nad oes gennych ganiatâd o flaen llaw.

Pobl ag anawsterau / anableddau dysgu

- Gall pobl sydd ag anawsterau dysgu ofyn i chi ailadrodd gwybodaeth sawl gwaith neu mewn gwahanol ffyrdd i gynorthwyo dealltwriaeth.
- Mae angen i chi fod yn amyneddgar, defnyddio iaith syml (Cymraeg neu Saesneg) ac osgoi 'jargon'.
- Mae rhai pobl sydd ag anawsterau dysgu yn ei chael hi'n ddefnyddiol i gymryd nodiadau o'r sgwrs gan ei fod yn caniatáu iddynt gael amser i feddwl ac i fyfyrio ar y sgwrs.
- Peidiwch ag anghofio y gall pobl sydd ag anawsterau dysgu bleidleisio, felly mae angen ei cynnwys yn eich ymgyrchoedd.

Pobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw

- Dim ond cyfran fach o bobl fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (IAP), ond mae'n bwysig bod yn ymwybodol bod IAP yn iaith yn ei rhinwedd ei hun ac nid yn gyfieithiad uniongyrchol o'r Saesneg. Pan fyddech yn cyfarfod â rhywun sy'n defnyddio IAP, gofynnwch os hoffent i chi drefnu i gyfieithydd cymwys wedi'w gofrestru fod yn bresennol.
- Dylech bob amser siarad i berson byddar yn uniongyrchol, ac nid i'w cyfieithydd.
- Nid yw pawb sy'n fyddar yn gallu darllen gwefusau. Os byddech yn cyfarfod â rhywun sy'n gallu darllen gwefusau, dylech siarad fel arfer heb or-ddweud geiriau, cuddio eich ceg mewn unrhyw ffordd neu droi i ffwrdd oddi wrthynt.
- Mae darllen gwefusau yn gofyn am ganolbwyntio dwys a gall fod yn flinedig iawn, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn caniatáu digon o amser ar gyfer seibiant.
- Os oes angen i chi ddenu sylw rhywun yna gallwch wneud hyn gyda chyffyrddiad ysgafn ar yr ysgwydd neu wrth chwifio llaw.

Pobl â chyflyrau iechyd meddwl

- Mae angen trefnu i gyfarfod mewn lleoliad lle mae'r person yn teimlo'n gartrefol a chyfforddus bob amser.
- Gall pobl â chyflyrau iechyd meddwl fod yn bryderus os nad ydynt yn eich deall, neu y gallant fod yn ansicr o beth ydych eisiau oddi wrthynt. Weithiau y byddent yn dod â gweithiwr cymorth neu eiriolwr gyda nhw i'r cyfarfod.
- Dylech geisio bod yn glir am yr hyn rydych yn ei ddweud bob amser a caniatáu digon o amser wrth wneud penderfyniadau.

Safbwyntiau lleol, barn hygyrch

Adeiladu cysylltiadau o fewn y gymuned

Gall barn pobl anabl ychwanegu dimensiwn ychwanegol i'ch ymgyrchu lleol a bydd yn helpu i sicrhau eich bod yn cynnal ymgyrchoedd cynhwysol sy'n wir yn cyseinio â'r etholaeth.

Pam na wnewch chi ystyried rhedeg ymgyrch am fynediad i lefydd sydd yn ganolbwynt y gymuned leol megis llyfrgell neu ysbyty? Byddwch yn synnu sawl adeiladau cyhoeddus a gwasanaethau yn eich etholaeth nad ydynt yn cymryd i ystyriaeth anghenion pobl anabl.

Gall rhai newidiadau bychan wneud byd o wahaniaeth ac nid ydynt bob amser yn ddrud i wneud. Mae ymgyrchoedd o amgylch hygyrchedd yn cael effaith gref ac yn weladwy iawn. Maen nhw hefyd yn gyfle gwych i ymgysylltu â gwirfoddolwyr newydd ac i sicrhau cefnogaeth ar draws y gymuned gyfan.

Os ydych yn cwrdd â phobl anabl yn yr etholaeth sydd yn gefnogol i'r Blaid pam na wnewch chi ofyn iddynt helpu gyda'r ymgyrch? Mae pob person anabl yn unigol a byddent yn gallu dweud wrthych pa fath o weithgareddau ymgyrch byddai'n well ganddynt i helpu gyda nhw. Hefyd, peidiwch ag anghofio i ystyried pobl anabl lleol wrth chwilio am ymgeiswyr cyngor newydd posibl.

Ffordd dda i adeiladu cysylltiadau â phobl anabl o fewn eich cymuned yw cysylltu â Sefydliadau Pobl Anabl lleol. Byddant yn gallu rhoi gwybod i chi ar faterion mwyaf brys sy'n wynebu pobl anabl yn yr etholaeth ac y gallant hyd yn oed fod yn barod i wneud eich llenyddiaeth sydd ar gael i'w aelodau ac eich helpu i gyfieithu i fformatau eraill fel Braille neu 'easy read'.

Mynd i bleidleisio – templed ymgyrchu

Yn Etholiad Cyffredinol 2005 roedd 68% o orsafoedd pleidleisio gyda un neu fwy o rwystrau mynediad difrifol a allai atal pleidleiswyr anabl rhag pleidleisio'n annibynnol.

Dyma ymgyrch syml ac effeithiol y gallwch redeg yn eich etholaeth i sicrhau fod pobl anabl yn cael mynediad at eu gorsaf bleidleisio agosaf.

Mae gorsafoedd pleidleisio yn cael eu lleoli mewn adeiladau cyhoeddus megis ysgolion, llyfrgelloedd, Neuaddau Tref a chanolfannau cymunedol, fel y cyfryw mae'r ymgyrch ar gyfer gorsafoedd pleidleisio hygyrch yn ymestyn y tu hwnt i fynediad unwaith bob pedair mlynedd. Er fod pleidleisio drwy'r post yn cynnig ffordd ddefnyddiol arall i rai, mae'n well gan lawer o bobl anabl bleidleisio'n bersonol ac ni ddylid ei gwadu ar y cyfle hwn.

Er mwyn sicrhau y gall pobl anabl gymryd rhan weithredol a chyfartal ym mywyd eu cymuned, gorsafoedd pleidleisio, ac felly yr adeiladau cymunedol y maent yn cael eu lleoli ynddynt. Felly mae'n rhaid eu bod yn hygyrch i bobl anabl, nid yn unig ar ddiwrnod yr etholiad, ond bob diwrnod.

Y mater

Mae 10.6 miliwn o bobl anabl yn y DU; sy'n gyfartaledd o 15,000 o bleidleiswyr anabl bob etholaeth.

Mae pobl anabl yn gyfran sylweddol o'r etholaeth, mae rhai yn dal yn ei chael hi'n fwy anodd i bleidleisio na phobl nad ydynt yn anabl.

Yn yr Etholiad Cyffredinol diwethaf cafwyd adroddiadau o nifer o broblemau sy'n atal pobl anabl rhag pleidleisio.

Y rhain yn cynnwys:

- grisiau heb ramp neu unrhyw fynediad arall
- coridorau cul a rhwystredig
- diffyg parcio dynodedig cyfagos ar gyfer pobl anabl
- cyrbau uchel a llwybrau mewn cyflwr gwael
- goleuo annigonol
- lloriau llithrig
- staff di-fudd neu anghwrtais
- Y blwch pleidleisio, bwth pleidleisio a gwybodaeth i gyd wedi'w osod yn rhy uchel ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn gael mynediad atynt.

Mae gwneud pleidleisio yn anodd neu'n amhosibl i grŵp mawr o'r bobl hyn nid yn unig nad yw'n ddemocratig; nid yw'n gwneud synnwyr. Yn enwedig pan fod pryder difrifol o amgylch difaterwch pleidleiswyr, dylid ystyried y nifer fawr o bobl anabl sydd eisiau pleidleisio, ond nad ydynt yn cael mynediad cyfartal at y broses bleidleisio.

Mae cymryd rhan mewn etholiad yn un o'r datganiadau mwyaf sylfaenol o ddinasyddiaeth o fewn democratiaeth. Mae pobl anabl yn parhau i gael ei wrthod mynediad cyfartal i'r system democrataidd mae ein democratiaeth yn methu bobl anabl.

Y cynllun ymgyrchu

1. Cwmpasu y sefyllfa

Mae pob awdurdod lleol gyda'r dyletswydd i adolygu hygyrchedd eu gorsafoedd pleidleisio yn rheolaidd.

Beth am ddechrau drwy ofyn i'ch swyddog gweinyddu etholiadol leol ar gyfer y canlyniadau i'r adolygiad mynediad orsaf bleidleisio yn eich etholaeth? Gallwch hefyd ofyn beth sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i wella hygyrchedd.

2. Dod o hyd i'ch ymgyrchwyr

Unwaith y byddwch wedi dod i wybod sut mae pethau'n sefyll yn lleol, y cam nesaf yw dod o hyd i rywun all eich helpu.

Dechreuwch drwy gysylltu eich Sefydliad Pobl Anabl leol; nid yn unig eu bod yn gallu eich helpu i ddod o hyd i bobl leol sy'n anabl y byddai'n hoffi cymryd rhan, efallai y byddant hyd yn oed eisoes gyda Swyddog Mynediad a all eich helpu gyda'ch ymgyrch.

Mae gwella mynediad i adeiladau cyhoeddus fel gorsafoedd pleidleisio nid yn unig o fudd i bobl anabl ond hefyd yn ei gwneud yn well i bawb yn y gymuned, megis rhieni gyda chadeiriau gwthio. Efallai y byddai'n syniad i gysylltu â grwpiau lleol eraill a allai fod â diddordeb yn yr ymgyrch.

3. Adolygu mynediad i orsafoedd pleidleisio

Nid yw gwella mynediad i orsafoedd pleidleisio mor anodd a mae'n ymddangos. Mewn llawer o achosion gall rhai newidiadau bach wneud byd o wahaniaeth.

Unwaith y byddwch wedi cael eich tîm yn ei le, gallwch ddefnyddio ein rhestr wirio ar gyfer ein adolygiad o fynediad i orsaf bleidleisio i sicrhau bod eich gorsaf bleidleisio leol yn hygyrch i bleidleiswyr anabl. Yna, gallwch gymryd eich canlyniadau a'u cymharu â data yr awdurdod lleol.

4. Rhoi brys ar y mater

Pan fyddwch wedi cynnal eich adolygiadau mynediad mae'n syniad da i ysgrifennu at y cyngor a rhoi gwybod iddynt eich canlyniadau. Lle bo'n bosib, ceisiwch awgrymu atebion syml i'r problemau mynediad y mae eich adolygiadau wedi eu nodi.

Peidiwch ag anghofio i ysgrifennu datganiad i'r wasg ar gyfer y papurau lleol i wneud yn siwr bod y gymuned gyfan yn ymwybodol o'r hyn rydych yn ei wneud. Mae'r ymgyrch hefyd yn cynnig ei hun i luniau cryf.

Adolygiad mynediad gorsaf bleidleisio

Enw'r gorsaf bleidleisio:

A oes parcio wedi'w ddynodi ar gyfer pleidleiswyr anablyn agos i'r orsaf bleidleisio?	☐ Oes ☐ Nag oes
A oes mynediad gwastad i'r orsaf bleidleisio?	☐ Oes ☐ Nag oes
Os oes ramp i wella mynediad ydyw wedi ei gynllunio'n briodol?	☐ Oes ☐ Nag oes
A oes mynediad gwastad y tu mewn i'r orsaf bleidleisio, a gall unigolyn anabl symud o gwmpas yn hawdd ac yn ddiogel?	☐ Oes ☐ Nag oes
Oes fersiwn print bras o'r papur pleidleisio yn cael ei arddangos?	☐ Oes ☐ Nag oes
A oes dyfais pleidleisio cyffyrddol i helpu pleidleiswyr ag amhariad ar eu golwg i bleidleisio yn annibynnol?	☐ Oes ☐ Nag oes
A oes bwth pleidleisio sydd yn isel ac yn ddigon llydan felly gall defnyddiwr cadair olwyn bleidleisio heb gymorth ac yn gyfrinachol?	☐ Oes ☐ Nag oes
A yw'r gorsaf bleidleisio wedi'w oleuo'n ddigonol?	☐ Oes ☐ Nag oes
A yw staff y gorsaf bleidleisio yn gynorthwyol a chyfeillgar?	☐ Oes ☐ Nag oes
A oes seddi ar gael i bobl i orffwys os oes angen iddynt?	☐ Oes ☐ Nag oes

Hoffech wybod mwy?

Mae'r sefydliadau a restrir isod hefyd yn gysylltiadau defnyddiol ar gyfer unrhyw un o'ch etholwyr anabl sy'n dymuno cael eu rhoi mewn cysylltiad â phobl sy'n gallu cynnig cyngor a chefnogaeth diduedd a gwybodaeth yn rhad ac am ddim.

DIAL UK

Mae gwasanaethau gwybodaeth a chyngor DIAL yn seiliedig ar draws y DU ac yn darparu gwybodaeth a chyngor i bobl anabl.

Cyfeiriad St Catherine's
Tickhill Road
Doncaster
South Yorkshire
DN4 8QN

Ffoniwch 01302 310 123

E-bost informationenquiries@dialuk.org.uk

Ewch i www.dialuk.info

Scope Response

Mae Scope Response yn darparu cyngor a chefnogaeth diduedd a gwybodaeth arbenigol i bobl anabl a'u teuluoedd.

Cyfeiriad PO Box 833
Milton Keynes
MK12 5NY

Ffoniwch 0808 800 3333

E-bost response@scope.org.uk

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y wybodaeth a ddarperir yn y llyfryn hwn, cysylltwch â ni.

Lucinda Roberts, Swyddog Ymgyrchoedd Seneddol

Ffoniwch 020 7619 7245

E-bost lucinda.roberts@scope.org.uk

Abigail Lock, Pennaeth Eiriolaeth ac Ymgyrchoedd

Ffoniwch 020 7619 7253

E-bost abigail.lock@scope.org.uk

Scope, Policy and Campaigns

Cyfeiriad 6 Market Road
London
N7 9PW

Ffoniwch 020 7619 7256

E-bost campaigns@scope.org.uk

Gallwch gael copi o'r ddogfen hon mewn fformatau gwahanol, megis print bras, sain electronig neu drwy ffonio 0808 800 3333.

Mae Scope yn elusen anabledd cenedlaethol, gyda'r gweledigaeth o fyd lle mae pobl anabl yn cael yr un cyfleoedd i gyflawni eu huchelgeisiau bywyd â phobl nad ydynt yn anabl.

Ein pwrpas yw i wneud yn siwr fod newidiadau a fydd yn gwneud ein cymdeithas y cyntaf lle fydd pobl anabl yn gallu gwireddu eu rhyddid sifil llawn a hawliau dynol.

Ffoniwch 0808 800 3333

Ewch i www.scope.org.uk

scope cymru

Ynghylch parlys yr ymennydd.
Dros gydraddoldeb i bobl anabl.
About cerebral palsy.
For disabled people achieving equality.

Mae Scope yn elusen gofrestredig, rhif 208031.

7136_W